

## Presgriptynnau Dilynol

I gleifion sydd angen meddyginiaeth hir dymor, mae gennym system gyfrifiadurol i bresgriptynnau dilynol. Gadewch eich rhestr gyfrifiadur, gan nodi'n eglur pa eitemau a ddymunwch, naill ai yn y dderbynfa cyn 1.00yh neu drwy amgau amlen gyda'ch cyferiad â stamp arni, neu drwy archebu ar-lein drwy y wefan hon. Os ydych yn archebu ar-lein cofiwch ddefnyddio eich 'reference number' yn y feddygfa sydd ar dop dudalen rwyg eich presgripsiwn dilynol.

Os yn casglu y presgriptiwn o'r feddygfa dylid caniatáu o leiaf 48 awr i gael presgriptiwn, heblaw ar ddydd Gwener, pan y bydd y prescriptiwn ar gael brynhawn Mawrth. **COFIWCH ADAEL 72 AWR OS Y DEWISIWCH GASGLU EICH PRESGRIPTIWN O FFERYLLFA (HEBLAW AM DDYDD GWENER, PAN FYDD Y PRESGRIPTIWN AR GAEL YN Y FFERYLLFA BRYNHAWN MERCHER).** Nodir nad yw meddigyniaethau sydd wedi eu marcio 1/1 neu ar ôl y dyddiad 'expiry' ar ochr rhwyg eich presgriptiwn yn/yn dal yn eitemau dilynol, felly gallant gael eu gwrthod.

Er mwyn i ni oruchwylio eich triniaeth bydd stamp coch ar eich prescriptiwn bôb 6-12 mis yn eich cyfeirio i weld y meddyg. Polisi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw i'r feddygfa roi prescriptiwn 28 diwrnod yn unig i'w chleifion. Mae Technegydd Presgripsiwn Meddygfa (Amanda J Hughes) sydd yn gyflogedig gan Fwrdd Iechyd Lleol Conwy yn gweithio o'r feddygfa, ermwyn helpu i sicrhau presgripsiynau o'r safon uchaf.

## Archebu Prescriptiynau

**I SICRHAU EICH DIOGELWCH NI DDERBYNIR CAIS AM UNRHYW FATH O BRESCRIPTIYNNAU AR Y FFÔN.**

## Ocsigen Cartref

Mae y cwmni Air Products, a nid fferyllfa lleol, rwan yn gyfrifol am arlwyyo eich cyflenwad o ocsigen cartref. Gallwch gysylltu a Air Products 24 awr y dydd ar y llinell argyfwng 0800373580